


AUGUSTO BOAL

Ymchwil unigol



PWY?

- Roedd Augusto Boal yn gyfarwyddwr theatr o Brasil, yn awdur ac yn ymgyrchydd politicaidd. Ac fe gafodd efaith anhygoel ar theatr fodern gan ei ddefnyddio i ddatrys problemau cymdeithasol a gwleidyddol yn hytrach na'i defnyddio i adloniant yn unig.
- Mi wnaeth o greu 'The Theatre of the oppressed' sef mudiad oedd yn helpu pobl cyffredin yn enwedig pobl tlawd a gorthrymedig- i gwestiynu, herio a thrawsnewid y systemau oedd yn cadw nhw lawr.
- Roedd Boal yn credu bod pawb yn actor ac mae bod yn ddinesydd ddim yn golygu byw mewn cymdeithas, mae'n golygu ei newid. Mae ei dechnegau'n parhau i ddylanwadu ar theatr gymhwysol, celfyddydau cymunedol, addysg ac actifiaeth ar draws y byd.
- Ei dechneg enwocaf yw Theatr y Fforwm, lle mae'r gynulleidfa'n dod yn "spectators" a all stopio y ddrama, camu ar y llwyfan, a rhoi cynnig ar syniadau newydd i ddatrys problemau'r stori.
- Fel Brecht, roedd Boal eisiau gwneud pobl yn ymwybodol o systemau anheg ond yn hytrach na gwylio'n unig, roedd eisiau iddyn nhw gymryd rhan yn y broses a creu newid er gwell.
- Creodd Boal y 'Legislative Theatre', a oedd yn caniatáu i ddinasyddion actio allan ac yna troi eu syniadau yn gyfreithiau go iawn!
- Bu farw Boal yn 2009, ond mae ei waith yn dal yn fyw ac yn cael ei ddefnyddio gan gwmnïau theatr ac addysgwyr ar draws y byd.

BETH?

- Cafodd Boal ei ysbrydoli gan Bertolt Brecht, a oedd eisiau i gynulleidfaoedd feddwl yn hytrach na ymgolli yn y stori. Aeth Boal gam ymhellach drwy adael i'r gynulleidfa ymuno â'r perfformiad ac awgrymu newidiadau.
- Creodd Boal berfformiadau a oedd yn edrych fel digwyddiadau bywyd go iawn ond oedd yn cael eu berfformio mewn lleoliadau cyhoeddus heb i'r gynulleidfa wybod mai theatr oedd o. Gwnaeth hyn i wneud i bobl ymateb yn naturiol i faterion cymdeithasol a dechrau sgysiau amdanynt.
- Arbrofodd Boal gydag ymarferion a gemau yn y theatr i ddysgu pobl sut i fynegi eu syniadau a'u hemosiynau'n ddiogel. Credai Boal y gallai theatr ddysgu sgiliau ar gyfer bywyd go iawn ac roedd yr ymarferion yma yn helpu pobl i ymarfer siarad a datrys problemau .
- Nid oedd Boal yn credu mewn prif gymeriadau, roedd gan bawb rôl gyfartal wrth greu'r stori. Gan fod eisiau i bob actor gael 'llais'. Roedd hyn yn dangos bod newid yn dod o'r gymuned nid gan un person.
- Addasodd Boal ei dechnegau i weithio mewn gwahanol wledydd a gyda gwahanol ddiwylliannau. Rhannodd ei ddulliau ar draws y byd oherwydd ei fod yn credu y gallai pawb ddefnyddio theatr i herio anghyfiawnder.
- Roedd Boal yn annog pobl i ddod â'u straeon eu hunain i'r llwyfan er mwyn iddynt allu cysylltu theatr gyda eu brwydrau bywyd go iawn.
- Theatr Ddeddfwriaethol oedd ffordd Boal o ddefnyddio theatr i helpu greu rheolau a deddfau. Roedd pobl yn actio problemau ar y llwyfan, yn rhoi cynnig ar wahanol atebion, ac yna gellid defnyddio eu syniadau mewn bywyd go iawn.

BLE?

- Rio de Janeiro, Brasil- Dechreuodd ei yrfa yn y 'Teatro de Arena' rhwng 1950-1960au. Roedd yn gweithio gyda actorion ifanc o Brasil ac yn dyfeisio theatr am fywyd pobl dlawd a bywyd go iawn
- Sao Paulo, Brasil- Tra'n gweithio yn yr Arena Theatr fe ddatblygodd Boal eisyniadau "Arena Theatre of the Oppressed". Roedd yn gweithio gyda awduron ac actorion oedd eisiau i theatr adlewyrchu bywyd go iawn, theatr allai bobl gyffredin uniaethu â hi.
- Peru, Arianin a Chile- Yn y 70au cynnar, trafeiliodd Boal drwy Dde America yn arwain gweithdai ar gyfer ffermwyr, bobl dlawd a myfyrwyr. O ganlyniad i'r gwaith yma datblygodd fath newydd o theatr sef 'Forum Theatre' a 'Image Theatre'.
- Brasil – cyfnod unbennaeth milwrol. Fe gafodd Boal ei arestio ai arteithio yn 1971 am ei waith (theatrpoliticaidd). Ar ol y cyfnod yma gadawodd Boal Brasil a mynd ifyw a gweithio yn yr Arianin.
- Arianin- Roedd Boal yn parhau i weithio gyda cwmnïau/grwpiau theatrpoliticaidd ac fe ysgrifennodd ei lyfr 'Theatre of the Oppressed'. Roedd yn cydweithio'n agos gyda amgrychwr ac addysgwyr oedd yn cwffio yn erbyn unbennaeth.
- Paris, Ffrainc- O ddiwedd y 1970au -1980au, roedd yn arwain y 'Centre du Theatre de L'opprime' ym Mharis ble yr addysgodd actorion, athrawon ac arweinyddion Cymdeithas o bedwar ban byd yn eiwaith ai ddulliau.
- Rio de Janeiro, Brasil- Yn y 1990au, fe ddychwelodd Boal i wgartref genedigol asefydlu canolfan 'Centre of the Theatre of the Oppressed'. Roedd yn cyd-weithio gyda pobl y stryd, carcharorion ac ysgolion ac fe ddaeth yn gynghorydd yn y ddinas ganddefnyddio Theatr Ddeddfwriaethol 'Legislative Theatre' i helpui greu deddfau newydd oedd yn berthnasol i fywyd poblgyffredin y wlad.

PAM?

- Tyfodd Boal i fyny ym Mrasil yn ystod cyfnodau o anhegwch gwleidyddol a chymdeithasol. Mi wnaeth hyn neud iddo fod yn ymwybodol o orthrwm ac a'i ysbrydolodd i ddefnyddio'r theatr i helpu bobl gyffredin.
- Roedd eisiau i theatr fod yn fwy na adloniant, credai y gallai ddysgu pobl i siarad, actio, a newid sefyllfaoedd annheg.
- Creodd Boal Theatr y Gorthrymedig fel y gallai cynulleidfaoedd gymryd rhan yn archwilio problemau cymdeithasol, ac paratoi ar gyfer bywyd go iawn.
- Roedd ei waith yn ymateb i orthrwm gwleidyddol, yn enwedig yn ystod unbennaeth filwrol Brasil, pan nad oedd gan bobl ryddid i siarad a chael barn.
- Roedd Boal yn annog pobl i ddefnyddio eu profiadau a'u straeon eu hunain fel deunydd ar gyfer theatr, gan ei gwneud yn berthnasol, yn bersonol, ac yn bwerus.
- Pwrpas ei theatr oedd grymuso cymunedau, adeiladu hyder, a helpu pobl i weld y gallent gymryd camau i wella eu bywydau.
- Cafodd Boal ei ysbrydoli gan theatr wleidyddol Brecht a thechnegau'r actor Stanislavski, ond fe greodd ffurf theatr unigryw ei hyn oedd yn ymarferol, rhyngweithiol a oedd yn creu newid cymdeithasol- er gwell.

PWY OEDD YN ELWA MWYAF O’R GWAITH YR OEDD BOAL YN EI WNEUD?

Y bobl wnaeth elwa fwyaf o waith Augusto Boal oedd bobl gyffredin, yn enwedig pobl o gymunedau tlawd a phobl oedd yn cael eu gorthrymu. Doedd theatr Boal ddim am wneud pobl yn gyfoethog yn ariannol ond yn hytrach yn cyfoethogi eu bywydau drwy roi pŵer i’r gynulleidfa a rhoi ‘llais’ i’r bobl gyffredin er mwyn eu helpu i ddeall a newid eu bywydau er gwell. Roedd ei ddull yn helpu pobl oedd ‘heb lais’ – gweithwyr, merched, carcharorion politicaidd a phobl oedd yn byw o dan reolaeth unbennaeth.

SUT WNAETH DDATBLYGU EI FETHODELOG?

- Yn 1960au ar 1970au roedd Boal yn gweithio yn Brasil, ac roedd Brasil yn cael ei rheoli gan unbennaeth filwrol.
- Fe sylwodd fod theatr draddodiadol yn caniatáu i bobl wylïo a gwrando ond nid i weithredu, ac roedd eisiau newid hyn
- Fe ddatblygodd ffurf newydd o theatr sef Theatr y Gorthrymiedig lle roedd y gynulleidfa yn gallu ymuno yn y ddrama, i actïo allan problemau go iawn a dod o hyd i atebion.
- Fe gafodd ei ysbrydoli gan lyfr Paulo Freire or enw “Pedagogy of the Oppressed” oedd yn ysbrydoli pobl i feddwl drostynt euhunain
- Roedd Boal yn credu fod gan theatr y gallu ar pŵer i addysgu, grymuso pobl gyffredin a newid bywydau – nid difyrru yn unig.

EFFAITH HEDDIW:

Mae methodoleg Boal yn dal i gael ei defnyddio ar draws y byd hyd heddiw gan gynnwys mewn

- Ysgolion a phrifysgolion - I helpu myfyrwyr ddysgu am empathï a chyfiawnder cymdeithasol
- Grwpiau Cymunedol – I archwilio problemau fel hiliaeth, tlodïneu anghyfiawnder rhyw (gender inequality)
- Cynhyrchiadau Theatr Modern – yn enwedig cynhyrchiadau rhyngweithiol ble mae’r gynulleidfa’n cael siapïo’r stori/naratïf
- Therapi Drama – I helpu pobl i fynegi eu teimladau ac ideimlo’n well drwy actïo

BETH YW BOD YN DDYNOL? BETH YW BOD YN ACTOR?

- Roedd Boal yn credu fod bod yn ddynol yn golygu fod ganddom ni'r pwer i feddwl, i deimlo, i ddychmygu ac i weithredu. Mae pawb yn greadigol. Dydym ni ddim yn gadael i fywyd ddigwydd i ni, mae ganddom ni'r pwer ar gallu i gymryd rhan actif yn ein bywydau a gwneud gwahaniaeth.
- Roedd Boal yn credu y gallai pawb fod yn actor gan ein bod ni i gyd yn gwneud penderfyniadau yn ein bywydau bob dydd. Galwodd Boal hyn yn y“spec-actor” sy'n golygu person sy'n gwyllo yn ogystal a gweithredu.
- Roedd Boal yn credu fod theatr yn ymarfer ar gyfer bywyd go iawn . Pan da ni'n actio ar y llwyfan, da ni'n dysgu sut i gydweithio, sut i ddeall eraill a sut i fod yn ddewr.
- Roedd Boal yn credu fod bod yn ddynol yn golygu i greu, i gymryd rhan ac i geisio gwneud y byd yn le gwell – yn union fel mae actor yn ei wneud mewn drama.
- acting is living circumstances

GEMAU

1. GEM DRYCH /MIRROR GAME

Mae dau berson yn wyebu ei gilydd. Mae un yn symud yn araf ar llall yn dilyn ac yn dynwared fel drych. - Yn helpu ni i weld eraill a ni ein hunain yn gliriach.

2. DELWEDD Y GORTHRYMEDIG /IMAGE OF THE OPPRESSED

Gwna lun llonydd gyda dy gorff sy'n dangos gorthrwm. Gall eraill newid y 'llun' l ddangos cryfder neu ryddid.- Yn helpu ni l adnabod gorthrwm, sut mae'n 'edrych' a sut y gall newid.

3. COLUMBIAN HYPNOSIS

Mae un person yn symud ei law, mae'r person arall yn dilyn gyda'i gorff. Yna newid drosodd. - Yn dangos sut mae pwer a control yn gweithio rhwng pobl

4. THEATR FFORWM/FORUN THEATRE

Actio drama fer am broblem bywyd go iawn. Gall y gynulleidfa rewi'r ddrama a cynnig syniadau a solutions gwahanol. - Yn helpu ni i wynebu a datrys ein problemau.

5. IMAGE THEATRE (GRWP)

Mae'r grwp yn gwneud 'cerfluniau' neu lyniau llonyddgyda'u cyrff i gyfleu pethau fel ofn neu ryddid neu obaith a newid. - Yn help i gyfleu emosiwn yn gorfforol, heb ddefnyddio geiriau.

6. RAINBOW OF DESIRE

Mae un person yn actio allan problem bersonol. Mae eraill yn y grwp yn gallu cyfleu y gwahanol emosiynau neu feddyliau sy'n mynd drwy pen y person yna. -Yn ein helpu i ddeall ein brwydrau/conflicts mewnol ac emosiynau.

7.COP IN THE HEAD

Da ni'n actio allan y 'lleisiau' sydd yn ein pennau, y rhai sy'n ein stopio rhag gwneud pethau – fel ofn neu gywilydd. Yna da ni'n dysgu sut l ymateb l'r lleisiau a siarad nol. - Yn ein helpu l gwffio'r llais sy'n ein pen sy'n dweud "fedrai ddim"

LLYFRAU

1. GEM DRYCH /MIRROR GAME

Mae dau berson yn wyebu ei gilydd. Mae un yn symud yn araf ar llall yn dilyn ac yn dynwared fel drych. - Yn helpu ni i weld eraill a ni ein hunain yn gliriach.

2. DELWEDD Y GORTHRYMEDIG /IMAGE OF THE OPPRESSED

Gwna lun llonydd gyda dy gorff sy'n dangos gorthrwm. Gall eraill newid y 'llun' l ddangos cryfder neu ryddid.- Yn helpu ni l adnabod gorthrwm, sut mae'n 'edrych' a sut y gall newid.

3. COLUMBIAN HYPNOSIS

Mae un person yn symud ei law, mae'r person arall yn dilyn gyda'i gorff. Yna newid drosodd. - Yn dangos sut mae pwer a control yn gweithio rhwng pobl.

4. THEATR FFORWM/FORUM THEATRE

Actio drama fer am broblem bywyd go iawn. Gall y gynulleidfa rewi'r ddrama a cynnig syniadau a solutions gwahanol. - Yn helpu ni i wynebu a datrys ein problemau.

5. IMAGE THEATRE (GRWP)

Mae'r grwp yn gwneud 'cerfluniau' neu lyniau llonyddgyda'u cyrff i gyfleu pethau fel ofn neu ryddid neu obaith a newid. - Yn help i gyfleu emosiwn yn gorfforol, heb ddefnyddio geiriau.

6. RAINBOW OF DESIRE

Mae un person yn actio allan problem bersonol. Mae eraill yn y grwp yn gallu cyfleu y gwahanol emosiynau neu feddyliau sy'n mynd drwy pen y person yna. -Yn ein helpu i ddeall ein brwydrau/conflicts mewnol ac emosiynau.

7.COP IN THE HEAD

Da ni'n actio allan y 'lleisiau' sydd yn ein pennau, y rhai sy'n ein stopio rhag gwneud pethau – fel ofn neu gywilydd. Yna da ni'n dysgu sut l ymateb l'r lleisiau a siarad nol. - Yn ein helpu l gwffio'r llais sy'n ein pen sy'n dweud "fedrai ddim"